**Yr Ail Gynulliad - Cyfarfod Llawn (117)**

**Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 8 Chwefror 2005**

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

### Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Atebwyd y 13 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 10 yn ôl.

..........................................

**2.49pm**
**Cwestiwn Brys**

Ieuan Wyn Jones: A wnaiff y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ddatganiad ar y pwysau ar wasanaethau Damweiniau ac Achosion Brys mewn ysbytai Cyffredinol Dosbarth ledled Cymru.

..........................................

## 2.59pm
## Datganiad Busnes

Bu i dros 10 Aelod wrthwynebu’r datganiad busnes.
Cynhaliwyd pleidlais ar y datganiad busnes:
O Blaid 30; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 55
Cytunwyd ar y datganiad busnes

..........................................

**3.12pm**
**Datganiad gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Adolygiad o Lofruddiaeth Paul Khan**

..........................................

**3.46pm**
**Pwynt o Drefn**

**Nick Bourne** o dan Reolau Sefydlog 6.36 a 6.37 ar gwestiynau ysgrifenedig y Cynulliad, anfon atebion dros dro, a chydymffurfio â’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**3.47pm**

***Ni chynhelir dadl ar yr eitem hon. Cynhelir pleidlais arni'n syth***

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.25**

NDM2278 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 24.25:

1. a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2005;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2005;
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005.

2 a) Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005; a

b) Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2005;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2005;
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig**

..............................................

**3.48pm**

**Cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005**

NDM2279 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu, mewn achosion lle bo cryn reoli'n digwydd ar diroedd comin ac ardaloedd o'r fath, a lle bo'r safonau lles anifeiliaid yn uchel, y dylid eithrio ardaloedd o'r fath o'r gofynion, fel sy'n digwydd yn achos dwy enghraifft o'r fath yn Lloegr, ac yn unol â hynny yn galw ar y Gweinidog i fynd ati i gysylltu â chymdeithasau cominwyr a chyrff tebyg er mwyn ceisio sefydlu system gofrestru a all eithrio'r ardaloedd hynny o'r rheoliadau.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi bod yr Arfarniad Rheoliadol ar gyfer y rheoliadau hyn, a osodwyd ar 19 Ionawr, yn tynnu sylw at yr anghysondeb yn Neddf Llywodraeth Cymru sy'n rhoi llai o ryddid i'r Cynulliad o ran llunio deddfwriaeth yr UE ar gyfer Cymru nag y mae llywodraeth y DU yn ei roi i Loegr, ac yn galw ar Lywodraeth y Cynulliad i drafod â llywodraeth y DU a oes modd gwneud i ffwrdd â'r anghysondeb hwn.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig

"Yn croesawu'r ffaith fod Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad yn bwriadu rhoi sylw i'r mater hwn ond yn gresynu cyn lleied o amser y mae'r llywodraeth wedi'i ganiatáu ar gyfer y cyfnod rhwng cyflwyno'r ddeddfwriaeth hon i'w hystyried yn y cyfarfod llawn a'r dyddiad arfaethedig ar gyfer ei gweithredu."

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn mynegi pryder nad yw llawer o'r materion yn ymwneud â lles anifeiliaid yn y rheoliadau hyn wedi'u datrys.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i egwyddor y Rheoliadau:**

O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 34; Cyfanswm 54

**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2 i egwyddor y Rheoliadau:**

O Blaid 15; Ymatal 0; Yn erbyn 39; Cyfanswm 54

**Gwrthodwyd Gwelliant 2 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3 i egwyddor y Rheoliadau:**

O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55

**Gwrthodwyd Gwelliant 3 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 4 i egwyddor y Rheoliadau:**

O Blaid 24; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 54

**Gwrthodwyd Gwelliant 4 i egwyddor y Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O Blaid 30; Ymatal 0;Yn erbyn 24; Cyfanswm 54
**Derbyniwyd egwyddor y Rheoliadau**

**NDM2280 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y rheoliadau drafft, Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno, ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005; a

2. Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â:
i) y Rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2005;
ii) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Ionawr 2005;
iii) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru); Brynle Williams (Gogledd Cymru); Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Yn Rheoliad 1(2) dileu "9 Chwefror 2005" a rhoi "9 Mai 2005" yn ei le.

<u>Datganiad Diben a Chost</u>

Diben

Ceisio sicrhau oedi cyn i'r Gorchymyn ddod i rym a thrwy hynny roi Cymru ar yr un lefel â Lloegr.

Y goblygiadau o ran y gost

Amcangyfrifir na fydd prin ddim cost.

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Alun Ffred Jones (Caernarfon)**

Yn Rheoliad 11(1) ychwanegu "Gymraeg," ar ôl "yn" ac yn Rheoliad 11(2) ychwanegu "Gymraeg a" ar ôl "yn".

<u>Datganiad Diben a Chost</u>

Diben

Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn iaith enwebedig y bydd yn rhaid ei chynnwys mewn pasbortau a roddir yng Nghymru.

Y goblygiadau o ran y gost

Gallai diwygio’r rheoliadau hyn, er mwyn sicrhau bod pasbortau a roddir yng Nghymru ar gael yn Gymraeg, olygu rhywfaint o gostau cyfieithu.

**Gwelliant 3 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed); Mick Bates (Sir Drefaldwyn); Mike German (Dwyrain De Cymru)**

Dileu’r holl eiriau yn Rheoliad 11(1) a rhoi yn eu lle "Rhaid i Adrannau I i VIII o’r pasbortau a ddyroddir yng Nghymru fod yn Saesneg, Cymraeg a Ffrangeg"

<u>Datganiad Diben a Chost</u>

Diben

Diben y diwygiad arfaethedig i’r Rheoliadau Pasbortau Ceffylau yw rhoi i’r Gymraeg statws tebyg i’r hyn sydd gan y Ffrangeg yn y rheoliadau hyn, sydd ar gyfer Cymru yn unig.

Y goblygiadau o ran y gost

Gan fod y rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i rai elfennau yn nogfennau’r pasbortau fod yn Ffrangeg yn ogystal ag yn Saesneg, er nad oes llawer o seilwaith yng Nghymru ar gyfer cydnabod a phrosesu’r iaith honno, ni fydd ychwanegu iaith y mae seilwaith o’r fath yn bodoli eisoes ar ei chyfer yn ychwanegu llawer at y costau, yn enwedig o ystyried bod y rheoliadau, fel y drafftiwyd hwy, yn caniatáu cynnwys ieithoedd heblaw’r Saesneg a’r Ffrangeg ar y pasbort. Mae’r gwelliant hwn yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg ac mae’n arbennig o berthnasol i’r rheoliadau hyn, a fydd yn effeithio mewn modd anghymesur ar sawl ardal benodol o’r wlad – a llawer ohonynt â chyfran uchel iawn o siaradwyr Cymraeg.

**Gwelliant 4 - David Melding (Canol De Cymru); Brynle Williams (Gogledd Cymru); Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Dileu Rheoliad 13 yn llwyr.

<u>Datganiad Diben a Chost</u>

Diben

Ceisio dileu’r datganiad sy’n ymwneud â lladd ceffylau i’w bwyta gan bobl.

Y goblygiadau o ran y gost

Amcangyfrifir na fydd prin ddim cost.

**Gwelliant 5 - David Melding (Canol De Cymru); Brynle Williams (Gogledd Cymru); Glyn Davies (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**

Yn Rheoliad 23(2) dileu "lefel 5" a rhoi "lefel 3" yn ei le.

<u>Datganiad Diben a Chost</u>

Diben

Ceisio lleihau uchafswm y ddirwy y bydd person yn atebol i'w thalu, ar gollfarn ddiannod, o ddirwy heb fod yn fwy na £5,000 i lefel heb fod yn fwy na £1,000.

Y Goblygiadau o ran Cost

Gan mai mater i Drysorlys y DU yw hwn, amcangyfrifir na fydd prin ddim cost i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwelliant 6 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru); Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru); Alun Ffred Jones (Caernarfon)**

Yn Rheoliad 24(1) dileu 'Yr awdurdod lleol' a rhoi "Cynulliad Cenedlaethol Cymru" yn ei le, a dileu Rheoliad 24(2) yn llwyr.

<u>Datganiad Diben a Chost</u>

Diben

Bydd y gwelliant hwn yn sicrhau na fydd yr Awdurdodau Lleol yn gorfod dwyn y baich ychwanegol o orfodi'r rheoliadau hyn, y mae Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad wedi nodi mai tasg amhosibl fydd eu gorfodi.

Y goblygiadau o ran y gost

Ni fydd diwygio'r rheoliadau hyn er mwyn sicrhau mai Cynulliad Cenedlaethol yn unig sy'n gyfrifol am orfodi'r rheoliadau hyn yng Nghymru yn golygu unrhyw gostau ychwanegol gan nad yw'r arfarniad rheoliadol sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau yn nodi unrhyw gostau ychwanegol o ran eu gweithredu.

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 1 i'r Rheoliadau:**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 1 i'r Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 2 i'r Rheoliadau:**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 2 i'r Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 3 i'r Rheoliadau:**
O Blaid 26; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 3 i'r Rheoliadau**

**Gwelliant 4 – Ni ddetholwyd y gwelliant hwn**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5 i'r Rheoliadau:**
O Blaid 16; Ymatal 10; Yn erbyn 30; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 5 i'r Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar Welliant 5 i'r Rheoliadau:**
O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 36; Cyfanswm 56
**Gwrthodwyd Gwelliant 6 i'r Rheoliadau**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**
O Blaid 30; Ymatal 0;Yn erbyn 26; Cyfanswm 56
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

**............................................**

## 4.35pm

**Cynnig i gymeradwyo o dan Reol Sefydlog 24.27 (iv) Reoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2005**

NDM2283 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Rheoliadau**
O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 10; Cyfanswm 54
**Cymeradwywyd egwyddor y Rheoliadau**

NDM2284 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cymeradwyo bod Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r rheoliadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005.

*Noder: Ni osodwyd Adroddiad gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â'r rheoliadau hyn; mae Cabinet y Cynulliad wedi datgymhwyso'r gofynion trefniadol o dan Reol Sefydlog 24.27 (i), (ii) a (iii).*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Rheoliadau**

O blaid 45; Ymatal 0; Yn erbyn 8; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y Rheoliadau**

..........................................

**4.37pm**
**Pwynt o Drefn**
**Jenny Randerson: Hysbysu Aelodau am benderfyniadau'r Llywodraeth**

..........................................

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**4.39pm**

**Cynnig i gymeradwyo, o dan Reol Sefydlog 29, Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Meddygol y Byrddau Iechyd Lleol**

NDM2281 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn ystyried egwyddor Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Meddygol y Byrddau Iechyd Lleol 2005 y gosodwyd copi ohonynt yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar egwyddor y Cyfarwyddiadau**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd egwyddor y Cyfarwyddiadau**

NDM2282 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 29.3 (iii):

Yn cymeradwyo bod Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Meddygol y Byrddau Iechyd Lleol 2005 yn cael eu gwneud yn unol â'r Cyfarwyddiadau drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y Cyfarwyddiadau**
O blaid 53; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 53
**Cymeradwywyd y Cyfarwyddiadau**

..........................................

**4.40pm**

**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau'r Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i Brif Weinidog Cymru**

NDM2277 Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62 (1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo i Brif Weinidog Cymru swyddogaethau canlynol y Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn Neddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, neu oddi tani, ac eithrio'r rhai na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw:

Adrannau 10, 13, 14, 17, 23, 25-28, 29(1)-(3) a (5), 31, 33, 39, 42(5) a 50

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Caiff y swyddogaethau hyn eu dirprwyo gan ei gwneud yn hysbys y byddant yn cael eu dirprwyo ymhellach i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff, fel y bo hynny'n briodol.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 52; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 52
**Derbyniwyd y cynnig**

.............................................

## 4.50pm

**Dadl wedi'i henwebu gan Blaid Geidwadol Cymru**

NDM2276 David Melding (Canol De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i wneud datganiad clir ar gostau a buddiannau darparu brecwast am ddim mewn ysgolion.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - David Melding (Canol De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu at y dryswch a achoswyd o ganlyniad i ymrwymiad gwreiddiol Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddarparu brecwast am ddim i bob "plentyn" ysgol gynradd.

**Gwelliant 2 - Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar i'r arian a ddyrannwyd ar gyfer brecwast am ddim mewn ysgolion gael ei roi i'r awdurdodau addysg lleol fel rhan o'u cyllid cyffredinol, er mwyn rhoi cymaint o ryddid ag y bo modd i'r ysgolion eu hunain benderfynu sut i wario'r arian hwnnw.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
**Gwelliant 1**
O Blaid 25; Ymatal 0; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 6; Ymatal 19; Yn erbyn 30; Cyfanswm 55
**Gwrthodwyd Gwelliant 2**

**Y cynnig**
O Blaid 55; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 55
**Derbyniwyd y cynnig**

..............................................

**5.40pm**

**Cynigiodd y Trefnydd Gynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.21 i ymestyn hyd y cyfarfod o 20 munud**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig**
O Blaid 49; Ymatal 0; Yn erbyn 4; Cyfanswm 53
**Derbyniwyd y cynnig**

**5.42pm**

***Cynnig i drafod y ddwy eitem a ganlyn gyda'i gilydd, ond gan gynnal pleidlais ar wahân***

**Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2005-06 ar gyfer awdurdodau heddlu Cymru**

NDM2285 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2005-06 ar gyfer awdurdodau heddlu Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 29; Ymatal 7; Yn erbyn 14; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

............................................

**Adroddiad Diwygio 2003-04 ar gyfer cynghorau ac awdurdodau heddlu Cymru**

NDM2286 Sue Essex (Gogledd Caerdydd)

Cynnig bod y Cynulliad, yn unol â Rheol Sefydlog 21.11, yn cymeradwyo Adroddiad Diwygio 2003-04 ar gyfer cynghorau ac awdurdodau heddlu Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ac a anfonwyd drwy'r e-bost at Aelodau'r Cynulliad ar 1 Chwefror 2005 gan Weinidog y Cynulliad dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:**
O blaid 29; Ymatal 7; Yn erbyn 13; Cyfanswm 49
**Derbyniwyd y cynnig**

............................................

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.59pm**

…………………………………………..

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 9 Chwefror 2005**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a Osodwyd ar 02 Chwefror 2005**

- **Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 6) (Cymru) 2005 - LD3449**
- **Rheoliadau Cwotâu Cynnyrch Llaeth (Cymru) 2005 - LD3450**
- **The Dairy Produce Quotas (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3451 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- **Rheoliadau Cynlluniau Datblygu Addysg (Cymru) (Diwygio) 2005 - LD3452**
- **The Education Development Plans (Wales) (Amendment) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3453 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- **Rheoliadau Cynghorau Iechyd Cymuned (Diwygio) 2005 - LD3454**
- **Community Health Councils (Amendment) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3455 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***
- **The Town and Country Planning (Blight Provisions) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3456 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***

**The Salmonella in Laying Flocks (Survey Powers) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3457 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***

**The Diseases of Animals (Approved Disinfectants) (Amendment) (Wales) Order 2005 - Regulatory Appraisal - LD3458 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***

**The Food Safety (General Food Hygiene) (Amendment) (Wales) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3459 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***

**The National Health Service (General Medical Services Contracts) (Prescription of Drugs Etc.) (Wales) (Amendment) Regulations 2005 - Regulatory Appraisal - LD3460 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***

**Dogfennau a Osodwyd ar 01 Chwefror 2005**

**Rheoliadau Pasbortau Ceffylau (Cymru) 2005 Memorandwm Cywiriadau - LD3448**

**Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Diwygio) (Cymru) 2005 - Memorandwm Cywiriadau - LD3442**

**Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Rhestri Cyflawnwyr) (Cymru) (Diwygio) 2005 - Memorandwm Cywiriadau - LD3443**

**Local Health Board Medical Services Directions 2005 - LD3444 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***

**Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2005 - LD3445**

**The Local Government Finance Report (No2) 2005-06 Final Settlement - Police Authorities - LD3446 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***

**The Local Government Finance (Amendment) Report (Wales) 2003-04 - LD3447 *Dim fersiwn Gymraeg ar gael***

**Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ar Orchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) (Dirymu) 2005 a Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad Gwerth Gorau) (Cymru) 2005 - LD3437**